OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1727 (Cy. 169)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Powys (Diddymu) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Gorffennaf 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Gorffennaf 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Awst 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 27C o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**).

Yn unol ag adran 27C(2) o'r Ddeddf honno, mae Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Castell-nedd Port Talbot ("*Neath Port Talbot College Further Education Corporation*")(**2**) wedi cydsynio i'r trosglwyddiad o eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Powys ("*Coleg Powys Further Education Corporation*")(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Powys ("*Coleg Powys Further Education Corporation*") yn unol ag adran 27C(6) o'r Ddeddf.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Powys (Diddymu) 2013 a daw i rym ar 1 Awst 2013.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

### Diddymu a throsglwyddo

**3.** Ar 1 Awst 2013 mae Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Powys ("*Coleg Powys Further Education Corporation*") wedi ei diddymu a throsglwyddir ei heiddo, ei hawliau a'i rhwymedigaethau yn unol ag adran 27C(2) o'r Ddeddf i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Castell-nedd Port Talbot ("*Neath Port Talbot College Further Education Corporation*"), sef corff

(**1**) 1992 p.13; rhoddwyd adran 27C yn lle adran 27 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Addysg 2011 (p.21), adran 49, Atodlen 12, paragraffau 1 a 7.
(**2**) A sefydlwyd fel "Neath College" gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).
(**3**) A sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).

corfforaethol sydd wedi ei sefydlu at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol.

**Trosglwyddo staff**

**4.** Mae adran 26(2), (3) a (4) o'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw berson a gyflogir gan Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Powys ("*Coleg Powys Further Education Corporation*") yn union cyn 1 Awst 2013 fel petai'r cyfeiriadau yn yr adran honno—

(a) at berson y mae'r adran honno yn gymwys iddo yn gyfeiriadau at berson sy'n gyflogedig fel hynny;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 1 Awst 2013;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Powys ("*Coleg Powys Further Education Corporation*"); a

(d) at y gorfforaeth yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Castell-nedd Port Talbot ("*Neath Port Talbot College Further Education Corporation*").

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau,
un o Weinidogion Cymru

9 Gorffennaf 2013

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r gorfforaeth addysg bellach a sefydlwyd i redeg Coleg Powys a hynny'n effeithiol o 1 Awst 2013. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Powys i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Gorchymyn hefyd yn diogelu hawliau cyflogaeth personau sy'n cael eu cyflogi gan Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Powys drwy gymhwyso, gydag addasiadau, adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13) ("y Ddeddf").

Effaith cymhwyso adran 26(2) i (4) o'r Ddeddf yw cadw contractau cyflogaeth cyflogeion Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Powys fel petai'r contractau cyflogaeth wedi eu gwneud yn wreiddiol rhwng y cyflogeion a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Castell-nedd Port Talbot. Daw cyflogeion Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Powys yn gyflogeion Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Castell-nedd Port Talbot o 1 Awst 2013 ymlaen.

Ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, gan nad oes ganddo effaith ar gostau busnes.